# 19.12.25




Ar ddiwedd tymor hynod o brysur, carwn ddiolch i gymuned yr ysgol am eich cefnogaeth barhaus. Heddiw rydyn ni'n ffarwelio a  Miss Law ac yn croesawu Mrs Cole yn ôl i'w swydd ar ôl cyfnod mamolaeth.

I'r rhai ohonoch sy'n dathlu'r Nadolig, mwynhewch, ac i'r rhai ohonoch nad ydych chi'n dathlu, mwynhewch seibiant hyfryd. Fe welwn ni chi nol yn yr ysgol ar Ddydd Mawrth, Ionawr 6ed 2026.

*At the end of an extremely busy term, we would like to thank the school community for your continued support. Today, we say goodbye to Miss Law and welcome Mrs Cole back to her post following her maternity leave.*

*For those of you who celebrate Christmas please have a wonderful time and for those of you who don't then please have a lovely break. We will see you back at school on Tuesday, January 6th 2026.*

## Banc Bwyd / Food Bank




Diolch yn fawr i chi am eich haelioni a'ch caredigrwydd tuag at y banc bwyd unwaith eto eleni. Aeth grŵp o blant hyna'r ysgol, a'r bwyd draw at y banc yr wythnos hon.

*Thank you very much for your generosity and kindness towards the food bank once again this year. A group of older children from the school took the food over to the bank this week.*

## Radio



Mae'r ysgol wedi cydweithio gyda chwmni radio er mwyn casglu hoff ganeuon y plant. Beth am wrando trwy glicio ar y ddolen isod. Bydd angen ei lawrlwytho.

https://drive.google.com/file/d/1ZOOKjuC04iJkjTIWWLWHo-p8phN_5oiI/view?usp=drive_link

*The school has collaborated with a radio company in order to collect the children's favorite songs. Why not listen by clicking on the link above. It will need to be downloaded*

## Recordio can cymunedol / Recording of a community song



Gweler isod ddolen i erthygl yn y cylchgrawn Cymraeg Golwg 360. Mae'r gân bellach wedi codi bron i £800 tuag at Apêl y Maeres.

*Please see below a link to an article in the Welsh magazine Golwg 360. The song has now raised nearly £800 towards the Mayoress Appeal.*

https://shorturl.at/BqWgz

## Cibabs ffrwythau bl 3-6 / Fruit keebabs yrs 3-6




Fel rhan o'n cwestiwn 'Beth yw effaith dewisiadau pobl?', dewisodd grŵp o blant Blwyddyn 5 i wneud cibabs ffrwyth i werthu amser chwarae ar ddydd Llun y 15fed.  Roedd ganddynt ddau reswm am hyn, yn gyntaf i annog plant i fwyta'n iach ac i gefnogi elusen Maggies gyda'r arian a godwyd. Casglwyd £105!

*As part of our question 'What is the effect of people's choices?', a group of Year 5 children chose to make fruit kebabs to sell at playtime on Monday the 15th.  Year 5 had two reasons for this, firstly to encourage children to eat healthily and to support Maggies charity with the money raised. We raised £105!*

# Learn Welsh for free / Dysgwch Gymraeg am ddim







Mae Clwb Cwtsh yn dod i YGG Castell-nedd yn y flwyddyn newydd. Manylion i ddilyn.

*Clwb Cwtsh is coming to YGG Castell-nedd in the new year. Details to follow.*

## Canu carolau / Carol singing



Cododd blynyddoedd 3 a 6 £263 ar gyfer Ty Hafan wrth ganu carolau yn y dref yn ystod yr wythnos. Mae Ty Hafan, yn cefnogi un o'n teuluoedd ni. Diolch am gefnogi'r elusen arbennig hwn. Yn anffodus roedd y tywydd yn erbyn blynyddoedd 5 a 6 ynghyd a threfniadau eraill dros yr wythnos.

https://www.tyhafan.org/about-us

Years 3 a 6 raised £263 for Ty Hafan by singing carols in town during the week. Ty Hafan, supports one of our families. Thank you for supporting this special charity. Unfortunately the weather was against years 5 and 6 along with other arrangements over the week.

# Llau pen / Headlice




**Plis gwiriwch gwallt eich plentyn a thrin yn ol yr angen er mwyn i ni ddod nol i'r ysgol ym mis Ionawr heb achosion o lau pen.**

Mae triniaeth llau pen ar gael **am ddim** o dan y Cynllun Anhwylderau Cyffredin yn y rhan fwyaf o fferyllfeydd yng Nghymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy'r ddolen isod.

Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin - Gwasanaeth Cynghori ar Feddyginiaethau Cymru

**Please check your child's hair and treat as needed so that we can come back to school in January without cases of head lice.**

*Head lice treatment is available **free of charge** under the Common Ailment Scheme at most pharmacies in Wales. More information can be found through the link below.*

https://www.wmic.wales.nhs.uk/common-ailments-service/

## Clybiau / Clubs



Fe fydd Clwb Gofal yn ail gychwyn ar 06.01.26. Booking for the first 2 weeks has now closed.

Clwb Gofal will start again on 06.01.26. Booking for the first 2 weeks has now closed.

*Fe fydd clybiau allgyrsiol yn ail gychwyn ym mis Chwefror. Amserlen i ddilyn ym mis Ionawr.*

*Extra curricular clubs will restart in February. Timetable to follow in January.*

## CRAFf / *PTFA*


Diolch yn fawr i CRAFf yr ysgol sydd wedi bod yn gweithio'n ddiddiwedd dros y tymor. Yn ddiweddar buon nhw'n gwerthu tocynnau raffl a threfnu disgo yn rhad ac am ddim ar gyfer y plant.

Os hoffech chi gefnogi'r CRAFf plis cysylltwch a nhw trwy'r ebost canlynol: castellneddpta@gmail.com

Thank you very much to the school's PTFA who have been working endlessly over the term. Recently they sold raffle tickets and provided a free disco for the children.

*If you would like to support the PTFA please contact them on this email address: castellneddpta@gmail.com*

## Hysbyseb / Advert




## Dyddiadur / Diary




19.12.25 Diwrnod olaf y tymor / Last day of term

HMS / INSET: 05.01.26

HMS / INSET: 19.01.26

https://www.yggcastell-nedd.co.uk/